Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PUBLICATION

Welsh Language Partnership Council meeting: 21 January 2021

Minutes of a meeting of the Welsh Language Partnership Council on 21 January 2021.

First published: 14 April 2022

Last updated: 14 April 2022

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Contents

Croeso

Pwyntiau Gweithredu

Yn bresennol	Rôl
Eluned Morgan AS	Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Rhodri Llwyd Morgan	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Enlli Thomas	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Owen Derbyshire	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Simon Brooks	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Rhian Huws Williams	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
Bethan Webb	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Yn bresennol	Rôl
(Ysgrifenyddiaeth)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru
Aelodau staff Is-adran y Gymraeg (Arsylwi'n unig)	Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	Rôl
Angharad Mai Roberts	Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Croeso

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, i rith-gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Nodwyd bod aelodau o Uwch-dîm Rheoli Is-Adran y Gymraeg yn bresennol yn y cyfarfod i wrando ar y trafodaethau ac i fod ar gael i ateb cwestiynau ar unrhyw faes perthnasol yn ôl y galw.

Diolchodd y Gweinidog yn fawr i'r Aelodau am eu holl waith, yn enwedig eleni wrth feddwl am y cyfnod ansicr yr ydym ni wedi bod ynddo. Diolchodd hefyd am y gwaith adeiladol y mae'r is-grwpiau yn ei wneud. Nododd bod yr argymhellion sydd wedi deillio o'r grwpiau hynny wedi bod yn amhrisiadwy a diolchodd am eu harbenigedd.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Eitem 1: diweddariad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Cafwyd diweddariad gan y Gweinidog ar yr hyn sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf.

Fel rhan o'r diweddariad, nododd y Gweinidog ei bod yn awyddus i weld a oes yna rywbeth y gellid ei wneud o ran gwarchod enwau tai. Nododd y Gweinidog hefyd bod ymgynghoriad ar gategoreiddio ysgolion yn fyw ar hyn o bryd, ac anogodd yr Aelodau i gyflwyno eu sylwadau ar yr ymgynghoriad.

Pwynt Gweithredu 1

Swyddogion i ymchwilio i weld beth sy'n bosib o ran gwarchod enwau tai.

Pwynt Gweithredu 2

Aelodau i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad ar gategoreiddio ysgolion.

Cyflwynodd y Gweinidog gofnodion y cyfarfod blaenorol a chynnig bod Aelodau'n cysylltu gyda'r Ysgrifenyddiaeth os bydd ganddynt unrhyw sylwadau. Fel arall, byddant yn cael eu cymeradwyo.

Diolchodd Aelod i'r Gweinidog ac i aelodau'r Is-adran am eu gwaith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Eitem 2: adborth gan yr is-grwpiau

Trodd y Gweinidog at yr ail eitem ar yr agenda.

Gan droi at pob is-grŵp yn ei dro, estynnwyd croeso i'r cadeiryddion roi diweddariad ar eu gwaith.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Eitem 3: ymateb i Argymhellion yr Is-grŵp Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg – trafodaeth gychwynnol

Cafwyd trafodaeth ar argymhellion yr Is-grŵp Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg.

Dyma rai o'r materion a godwyd gan Aelodau:

- prif her yr Is-grŵp yn ystod y blynyddoedd nesaf fydd ailadeiladu bywydau cymunedau Cymraeg yn sgil COVID-19 a Brexit
- angen cofio bod gweithgareddau'r Mentrau Iaith yn amrywio ar draws Cymru a bod angen parhau i gydweithio â nhw
- y pwysigrwydd i blethu gwaith y Mentrau Iaith gyda rhaglen Arfor: gan ystyried defnyddio arbenigedd pobl fusnes i helpu gwydnwch mudiadau cymunedol a potensial mudiadau Cymraeg o ran datblygu mentrau economaidd sydd hefyd yn rhoi budd i'r iaith Gymraeg

Eitem 4: polisi Seilwaith Ieithyddol – diweddariad

Trodd y Gweinidog at y pedwerydd eitem ar yr agenda. Nododd mai dogfen ddrafft yw'r Polisi seilwaith ieithyddol sydd gerbron yr Aelodau ac y bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus maes o law. Mae'n amlinellu cynigion er mwyn datblygu a chydlynu maes seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well.

Trosglwyddwyd yr awenau i un o swyddogion y Llywodraeth i roi cyflwyniad ar y gwaith.

Nododd y swyddog mai'r hyn a olygir wrth seilwaith ieithyddol yn y ddogfen yw geiriaduron, adnoddau terminoleg, gwaith cynllunio corpws, a safoni'r Gymraeg (gyda ffocws penodol ar yr orgraff / sillafiadau). Er mwyn bwrw'r gwaith yn ei flaen, y bwriad yw sefydlu Uned i gydlynu'r gwahanol elfennau'n well, a chynllunio gwaith yn y maes. Mae yna fwriad hefyd i greu un wefan chwiliadwy lle gall unrhyw un sydd am ddefnyddio'r Gymraeg ddod o hyd i air neu derm yn rhwydd. Nododd mai un o'r prif amcanion oedd gwneud i'r maes weithio yn well i'r defnyddiwr.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Nododd y Swyddog bod croeso i'r Aelodau rannu sylwadau yn ystod y cyfarfod neu gysylltu eto os hoffent drafodaeth fanylach ar y ddogfen.

Dyma rai o'r materion a godwyd gan Aelodau:

- nododd Aelod ei fod yn croesawu'r polisi drafft yn fawr iawn. Eglurodd ei fod yn cytuno bod angen sefydlu Uned a bod y polisi drafft yn dangos y ffordd ymlaen mewn ffordd gadarn ac yn gwneud hynny gan barchu rhanddeiliaid sydd eisoes yn rhan o'r maes
- cyfeiriwyd at bwysigrwydd bod â deunyddiau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr (e.e. cyfieithwyr / rhieni di-Gymraeg / dysgwyr) ac y bydd felly angen dylunio'r platfform a llwybr defnyddwyr at yr adnoddau yn unol â hynny

Pwynt Gweithredu 3

Aelodau i ymateb yn swyddogol i'r ymgynghoriad pan aiff yn fyw a gofyn i eraill sydd â diddordeb wneud yr un fath.

Eitem 5: ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru (drafft cyntaf) – diweddariad

Cafwyd cyflwyniad gan Aelod ar ddatblygu polisïau newydd yng Nghymru ym maes ail gartrefi yng nghyfarfod 22 Hydref 2020 y Cyngor Partneriaeth. Cafwyd diweddariad pellach gan yr Aelod ar y gwaith - sydd bellach yn cynnwys cyflwyno argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru ar gais y Gweinidog. Amlygodd yr aelodau:

- bod angen safbwynt ac arweiniad cenedlaethol clir ar gyfer y maes hwn
- bod angen sefydlu polisi cenedlaethol i ddelio gydag ardaloedd sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi
- yr angen i weithredu yn y maes hwn heb oedi pellach er mwyn diogelu cymunedau yn enwedig cymunedau Cymraeg

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

Eitem 6: proffiliau iaith – trafodaeth gychwynnol

Trodd y Gweinidog at yr eitem nesaf ar y agenda gan drosglwyddo'r awenau i un o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Nododd y swyddog mai bwriad y prosiect yw gwella mynediad at wybodaeth a data ynghylch y Gymraeg gyda'r nod o hwyluso'r gwaith cynllunio ieithyddol ar lefel sirol. Nid comisiynu gwaith ymchwil newydd yw'r bwriad ond yn hytrach, cyflwyno gwybodaeth a data sydd eisoes ar gael mewn dull mwy hygyrch a chyson ar draws yr holl siroedd.

Nodwyd mai'r prif gynulleidfa darged yw arweinwyr ac uwch-swyddogion yn y cynghorau sir ond bod y prosiect yn debygol o fod o ddiddordeb a budd i gynulleidfa ehangach megis swyddogion Is-adran y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg, swyddogion mewn adrannau ar draws y Llywodraeth er mwyn eu cynorthwyo i brif-ffrydio'r Gymraeg ac asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg, mudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar lawr gwlad, cyrff cyhoeddus eraill ac ati.

Eitem 7: unrhyw fater arall

Diolchodd Aelod i'r Gweinidog am ei gwaith yn ystod y Llywodraeth hon.

Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr a nododd ei bod wedi mwynhau gweithio gyda phawb.

Pwyntiau Gweithredu

	Pwynt gweithredu	I bwy?	Wedi cwblhau?
1.	Swyddogion i ymchwilio i weld beth sy'n bosib o ran	Swyddogion	√

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

	Pwynt gweithredu	I bwy?	Wedi cwblhau?
	gwarchod enwau tai.	Llywdoraeth Cymru	
2.	Annog yr Aelodau i edrych ac i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad ar gategoreiddio ysgolion. Swyddogion i rannu'r ymgynghoriad gyda'r aelodau. Ysgrifenyddiaeth i ddanfon y ddolen at yr Aelodau.	Ysgrifenyddiaeth/ Aelodau	√
3.	Aelodau i ymateb yn swyddogol i'r ymgynghoriad pan aiff yn fyw a gofyn i eraill sydd â diddordeb wneud yr un fath.	Aelodau	√

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.

About this document

This document is a copy of the web page **Welsh Language Partnership Council meeting: 21 January 2021** downloaded.

Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.

This document may not be fully accessible, for more information refer to our **accessibility statement**.

Get **information on copyright**.

This document was downloaded from GOV.WALES and may not be the latest version.
Go to **https://gov.wales/welsh-language-partnership-council-meeting-21-january-2021-html** for the latest version.
Get **information on copyright**.